



Canllawiau Grant Cymunedol LleCHI LleNI

Beth yw Grant Cymunedol Llechi Cymru?

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r grantiau hyn ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol yng Ngwynedd. Gan adeiladu ar y momentwm o fewn ein cymunedau chwarelyddol yn dilyn dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru, prif nod y grant yw cefnogi prosiectau a fydd yn gwella ymgysylltiad cymunedol i bawb, creu balchder lleol yn nhreftadaeth y tirweddau llechi, gwella lles a datblygu sgiliau.

Disgwylir i'r dyraniadau annog cymunedau i fod yn fwy rhagweithiol yn eu hardaloedd a grymuso cymunedau i gymryd rhan ragweithiol yn y gwaith o reoli a datblygu Safle Treftadaeth y Byd a'r cymunedau ehangach i'r dyfodol. Y bwriad yw galluogi'r trydydd sector i chwarae rhan lawn o fewn cymunedau Gwynedd a thrwy adlewyrchu un neu fwy o'r amcanion isod:

Amcanion prosiect LleCHI LleNI

- Bydd pobl yn dod at ei gilydd yn lleol i ddathlu Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.
- Bydd pobl a chymunedau yn ymwneud yn barhaus â dylunio a chyflawni prosiect LleCHI LleNI.
- Bydd pobl yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned, y Gymraeg a'i diwylliant, a threftadaeth y Tirweddau Llechi a byddant yn teimlo mwy o ymdeimlad o les (gall hyn gynnwys gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â phum elfen llesiant y GIG:
 - Cysylltu ag eraill
 - Gwneud rhywbeth actif
 - Dysgu sgiliau newydd
 - Rhoi i eraill
 - Bod yn y foment (yn ystyriol)
- Bydd pobl sy'n byw mewn Cymunedau Llechi yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau traddodiadol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi.
- Bydd pobl sy'n byw mewn Cymunedau Llechi yn gallu hyrwyddo'r hyn sydd gan Dirwedd Llechi Cymru i'w gynnig yn well.
- Bydd canolbwyntiau o fewn Cymunedau Llechi yn lleoedd mwy bywiog, cynhwysol a blaengar, sydd wedi'u cysylltu'n well â'i gilydd ac â threftadaeth y Dirwedd Lechi.
- Bydd busnesau bach sy'n gweithredu o fewn yr ardal Tirwedd Llechi yn well am ddefnyddio'r dreftadaeth leol i hyrwyddo'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig a byddant yn fwy cysylltiedig â'i gilydd ac â'u cwsmeriaid.
- Bydd pobl leol ac ymwelwyr yn gallu archwilio'r dreftadaeth ar garreg eu drws yn fwy diogel.
- Bydd tiffeddianwyr a rheolwyr safle yn deall yn well eu cyfrifoldebau a'r cyfleoedd y mae gweithgareddau cadwraeth yn eu cynnig.

- Bydd pobl mewn Cymunedau Llechi yn gweithredu fel ceidwaid y dreftadaeth ar garreg eu drws.
- Bydd pobl sy'n byw mewn Cymunedau Llechi yn deall yn well beth sy'n gwneud y Tirweddau Llechi yn arbennig.
- Bydd ymwelwyr sy'n dod i Dirweddau Llechi Cymru yn gwerthfawrogi effaith andwyol twristiaeth ac yn gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch sut, ble a phryd y byddant yn teithio o fewn yr ardal.
- Bydd disgyblion ysgol a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn Cymunedau Llechi yn deall y dreftadaeth ar garreg eu drws yn well ac yn cael eu hannog yn fwy i wneud eu hymchwil a'u harchwiliadau eu hunain o fewn eu tirweddau lleol.

Cynulleidfaedd targed LleCHI LleNI

Nod LleCHI LleNI yw ennyn diddordeb cynulleidfa ehangach mewn treftadaeth. Mae'r cynulleidfaedd canlynol wedi'u nodi ar gyfer y prosiect ac os yw'r cyllid yn gystadleuol, bydd ceisiadau sy'n targedu cynulleidfaedd â blaenoriaeth a chynulleidfaedd sy'n cael eu tangynrychioli yn argyhoeddiadol yn cael eu blaenoriaethu:

Cynulleidfaedd craidd

- Rhanddeiliaid lleol
- Ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Ymwelwyr dydd a thwristiaid

Cynulleidfaedd blaenoriaeth

Preswylwyr Cydrannau'r STyB a thu hwnt

- Pobl hŷn a bregus
- Cymunedau difreintiedig
- Pobl sy'n wynebu tlodi bwyd
- Teuluoedd
- Cymunedau gwledig ac amaethyddol
- Pobl sy'n chwilio am gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth

Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

- Pobl LHDTTC+
- Pobl sydd wedi symud i'r Dirwedd Llechi
- Pobl ag ystod eang o anableddau, afiechyd a gwahaniaethau
- Pobl ifanc (digartref/yn wynebu digartrefedd, gofalwyr ifanc)

Pa lefel o grant y gellir ei ddyfarnu?

Mae cronfa Cyfalaf a chronfa Refeniw ar gael i'w dosbarthu i grwpiau ledled Gwynedd. Gwahoddir ceisiadau unigol o £250 hyd at £10,000. Gall grwpiau sydd eisoes wedi derbyn grant o'r gronfa hon ailymgeisio unwaith y bydd holl ofynion monitro'r grant gwreiddiol wedi'u cwblhau.

N.B. Sylwch fod dwy ffurflen gais ar gyfer y cynllun hwn; ffurflen gais am grantiau dros £1,000 a ffurflen gais fyrrach ar gyfer grantiau o dan £1,000.

Pa fath o brosiectau y gallai hyn eu hariannu?

Disgwylir i geisiadau fod yn seiliedig ar brosiectau neu wasanaethau newydd neu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n cyflawni amcanion penodol a chlir. Ni roddir grantiau tuag at gostau cynnal a chadw rheolaidd, o ddydd i ddydd. Lle mae cystadleuaeth frwd am gyllid a'r holl feini prawf eraill wedi'u bodloni'n gyfartal, er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig, byddwn yn ymdrechu i ariannu lledaeniad eang o ran lleoliad daearyddol ac ystod o weithgareddau a byddwn yn blaenoriaethu grwpiau a cymunedau nad ydynt wedi derbyn buddsoddiad sylweddol o'r blaen trwy grantiau Cyngor Gwynedd.

Engbreiffiau o brosiectau CYFALAF y gallai'r Gronfa eu cefnogi:

- Prynu offer neu welliannau ar raddfa fach i adeilad a fydd yn galluogi gwirfoddolwyr i gyflwyno gweithgareddau sy'n ymwneud â blaenoriaethau'r cynllun hwn (e.e. addasu gofod ar gyfer dehongli neu gelfyddyd gymunedol).
- Prosiectau sy'n symleiddio'r ddarpariaeth o adeiladau cymunedol o fewn cymuned benodol i greu model mwy cynaliadwy.
- Prosiectau gwella amgylcheddol lleol yn ymwneud â'r dirwedd llechi.

Engbreiffiau o brosiectau REFENIW y gallai'r Gronfa eu cefnogi:

Gallwch wneud cais am gyllid refeniw yn ystod 3 blynedd ariannol ond dim ond yn flynyddol y gallwn gadarnhau argaeledd cyllid, yn seiliedig ar argaeledd cyllideb.

- Datblygu gweithgareddau a gwasanaethau newydd sy'n mynd i'r afael ag un neu fwy o'r nodau blaenoriaeth sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr, e.e. grwpiau treftadaeth neu gadwraeth; gweithgareddau sy'n hybu lles yn y cymunedau llechi/tirweddau; gweithgareddau sy'n helpu plant neu bobl ifanc i ddeall a gwerthfawrogi eu treftadaeth.
- Digwyddiadau – ar gyfer digwyddiadau newydd sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r nodau blaenoriaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu ond nad ydynt wedi derbyn Grant Cymunedol Llechi Cymru o'r blaen ac sy'n dymuno gwella cynaliadwyedd ariannol eu digwyddiad neu gyrraedd cynulleidfâ. (Os ydych yn gwneud cais am gyfraniad tuag at eich digwyddiad, bydd angen i chi gyflwyno cynllun busnes byr iawn i ddangos sut y bydd y digwyddiad yn cynnal ei hun ar ôl cyfnod y grant).
- Hyrwyddo gweithgareddau ac adnoddau cymunedol – e.e. darparu deunyddiau/gwybodaeth marchnata, byrddau gwybodaeth, asedau digidol neu bamffledi treftadaeth a gaiff eu datblygu gan wirfoddolwyr.
- Swyddi newydd – llawn amser neu ran-amser sy'n recriwtio, cefnogi a datblygu sgiliau gwirfoddolwyr yn un neu fwy o'r nodau blaenoriaeth a restrwyd yn flaenorol. (Os ydych yn gwneud cais am gyfraniad tuag at gost swydd bydd angen i chi gyflwyno disgrifiad swydd a manyleb person a chynllun busnes i ddangos sut y bydd y swydd neu'r gweithgaredd yn cael ei gynnal ar ôl cyfnod y grant).
- Cynllun Busnes – comisiynu cynllun busnes ar gyfer menter/gweithgaredd newydd sy'n ymgysylltu â'r nodau blaenoriaeth a fydd yn gwella hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y grŵp, neu ddiweddarau'r cynllun busnes ar ran menter sy'n wynebu anawsterau ariannol.
- Astudiaeth dichonoldeb / gwerthuso opsiynau – talu am ffioedd proffesiynol i ymchwilio i ymarferoldeb ac ymarferoldeb / gweithgaredd newydd y fenter.

- Aseiad ynni – talu am ffioedd proffesiynol i asesu perfformiad ynni mewn adeilad cymunedol a chynhyrchu adroddiad yn cyfeirio at y camau sydd angen eu cymryd i wella perfformiad ynni effeithiol.
- Ffioedd proffesiynol – pan fo'r ffioedd yn rhan angenrheidiol o brosiect adfywio trwy dreftadaeth.
- Hyfforddiant – ar gyfer pwyllgorau a grwpiau gwirfoddol e.e. sy'n eu helpu i fynd i'r afael yn well â nodau blaenoriaeth y grant.

Pwy all wneud cais am gyllid?

Gall grwpiau cymunedol sydd â phrosiect sy'n darparu ar gyfer trigolion Gwynedd wneud cais am gymorth drwy Grant Cymunedol LleCHI LleNI. Er y gall unigolion a grwpiau anffurfiol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf isod wneud cais, bydd angen iddynt wneud hynny mewn partneriaeth â grŵp neu sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf. Mae hyn oherwydd ei fod yn helpu i ddangos cefnogaeth o fewn y gymuned i'r cynnig ac er mwyn i Gyngor Gwynedd allu cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer yr arian a ddyrannwyd. Tra gall Cynghorau Cymuned neu Dref wneud cais bydd angen iddynt ddangos bod y gweithgaredd arfaethedig yn newydd ac nad yw'n rhan o'u gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae'n bwysig eich bod yn bodloni'r meini prawf canlynol cyn gwneud cais am gyllid drwy'r gronfa hon:

- Rhaid i'ch mudiad fod yn fudiad cymunedol neu wirfoddol sydd wedi'i leoli o fewn, neu'n gweithredu o fewn, Gwynedd;
- Ni all eich sefydliad ddosbarthu elw;
- Rhaid i'ch sefydliad gael fframwaith cyfreithiol a chyfansoddiadol;
- Rhaid i'ch sefydliad gael strwythur rheoli clir;
- Rhaid bod gan eich sefydliad systemau rheoli ariannol clir;
- Rhaid i'ch mudiad gael egwyddorion gweithredol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth cyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr;
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb o ran mynediad, iaith, diwylliant, rhyw ac ethnigrwydd;
- Meddu ar nodau ac amcanion sy'n cyd-fynd â'r gweithgareddau a ariennir drwy'r grant hwn;
- Dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun;
- Rhaid dangos bod egwyddorion gwerth am arian wedi eu dilyn wrth ddatblygu, gweithredu a rhedeg y cynllun, megis sicrhau bod eich prosiect yn dilyn y Canllawiau Tendr (**Gweler ar waelod y dudalen wefan**) ar gyfer y gwaith/ gwasanaeth, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf;
- Bod ag egwyddorion gweithredol yn eu lle sy'n unol â'r deddfwriaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed.

Sylwch, enghreifftiau yn unig yw'r uchod.

Os mai hybu crefydd yw prif nod eich grŵp bydd angen i chi brofi bod yr hyn y mae'r grant yn ei gefnogi ar gael i'r gymuned gyfan.

Bydd yn ofynnol i bob prosiect a gymeradwyir gydymffurfio â thelerau ac amodau Grant Cymunedol LleCHI LleNI. Mewn rhai amgylchiadau gellir gosod amodau arbennig ar brosiect.

Sut i wneud cais am gyllid?

Gallwch wneud cais am arian o Grant Cymunedol Llechi Cymru drwy lenwi'r ffurflen gais briodol. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y nodiadau yn ofalus ac yn sicrhau bod eich prosiect yn ymateb i'r canllawiau a'r meini prawf. Fe'ch cynghorir yn gryf i gysylltu a'r rheolwr prosiect i drafod cyn gwneud cais. Mae manylion y swyddog hyn isod:

Lucy Thomas
Ebost: llechi@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 07785 469867

Pryd dylid cyflwyno cais?

Dylech sicrhau bod y ffurflen gais wedi'i chwblhau a bod yr holl ddogfennau ategol a thechnegol hanfodol wedi'u cyflwyno erbyn y dyddiad cau priodol.

DYDDIAD CAU ar gyfer derbyn ceisiadau: Mae'r grant yn cael ei ddyfarnu yn chwarterol ond bydd y 'rowndiau' ymgeisio fydd ar gael yn dibynnu ar faint o arian fydd ar gael bob tro.

Mae'r dyddiadau cau ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn;

21 Mawrth 2025

20 Mehefin 2025

30 Medi 2025

9 Ionawr 2026

Ein nod yw prosesu ceisiadau o fewn 6 wythnos i'r dyddiad cau.

Sut bydd eich cais yn cael ei brosesu

Bydd pob cais yn cael ei ddyfarnu gan y Panel Grantiau.

- Cyn cynnal y panel
 - Mae'r panel yn derbyn copïau o geisiadau'r ceisiadau a dderbyniwyd.
 - Mae penderfyniadau'r panel a gallu'r panel i weithredu yn cael eu llywodraethu gan Feini Prawf Asesu'r Panel Grantiau (**Gweler rhain ar waelod y dudalen wefan**)
 - Mae angen cworwm o dri aelod er mwyn i'r panel allu gwneud penderfyniadau.
 - Mae meini prawf gorfodol (er enghraifft, cymhwyster y sefydliad) yn cael eu hasesu cyn cyfarfod y panel.
 - Mae'r panel yn trafod meini prawf asesu, er enghraifft, gwerth am arian, a yw'r cais yn bodloni amcanion y cynllun.
 - Gwneir penderfyniadau fel arfer drwy gonsensws ond mae darpariaeth i bleidlais gael ei chynnal gyda chadeirydd y panel yn cael y bleidlais fwrw os bydd gêm gyfartal.
 - Rhoddir grant i bob cais sy'n bodloni'r meini prawf a'r trothwy ansawdd os oes cyllideb ddigonol. Mae'r panel yn cadw'r hawl i ddefnyddio system sgorio os bydd y cynllun grantiau yn dod yn gystadleuol ac yn methu â gwneud dyfarniad i bob cais cymwys.

- Mae'r penderfyniadau y gall y panel eu gwneud fel a ganlyn:
 - Gwrthod y cais
 - Gwneud argymhellion ac awgrymu ailgyflwyno
 - Gwneud dyfarniad ond gosod amodau ychwanegol i amodau safonol y grant.
 - Gwneud dyfarniad heb amodau ychwanegol.
 - Cynnig swm is.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu nodi'n ysgrifenedig o benderfyniad y Panel (trwy e-bost fel arfer) o fewn 2 wythnos i gyfarfod y panel.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gadw at y prosesau monitro a hawlio a nodir yn amodau'r grant: **(Gweler rhain ar waelod y dudalen wefan)**. Mae'n bosibl y caiff amodau ychwanegol eu pennu a chânt eu manylu yn amodau'r grant a anfonir atoch gyda'r cynnig o grant.

Cadw cofnodion o'ch prosiect – canllaw byr iawn

O'r cychwyn cyntaf mae'n bwysig meddwl sut y bydd eich prosiect cymunedol yn parhau i fod o fudd i'r gymuned ar ôl i'r cyfnod ariannu ddod i ben. Mae pob prosiect yn wahanol a bydd angen i'r ffyrdd rydych chi'n gwneud hyn adlewyrchu'r math o brosiect rydych chi'n gweithio arno. Siaradwch â thîm LleCHI LleNI os ydych yn ansicr:

llechi@gwynedd.llyw.cymru

Mae rhai cofnodion a gweithdrefnau i ddogfennu eich prosiect y mae'n rhaid i chi eu dilyn fel amod o'ch grant. Eglurir y rhain yn y canllawiau a thelerau ac amodau'r grant. Efallai y gofynnir i chi gadw rhai mathau o wybodaeth fel amod penodol a nodir yn eich llythyr grant hefyd.

Gweithgareddau

Ar gyfer gweithgareddau fel gweithdai, sesiynau celf, sesiynau lles ac ati gallech dynnu lluniau o'r sesiynau gyda chaniatâd y rhai oedd yn bresennol. Gallech dynnu lluniau a/neu gadw ffeiliau digidol o'r deunyddiau i hyrwyddo'ch gweithgaredd ac unrhyw ddeunyddiau a grëwyd fel rhan o'r gweithgaredd megis gweithiau celf. Gallech hefyd feddwl am ble y gellir cadw'r rhain ar ôl y sesiwn. A ellid eu defnyddio o fewn y gymuned? Os ydych yn creu cerddoriaeth, seinweddau neu ffeiliau sain, meddyliwch yn ofalus am sut y byddwch yn sicrhau y gellir cadw'r rhain. Efallai y gallech gadw unrhyw ganllawiau neu ddogfennau defnyddiol y byddwch yn eu creu fel rhan o'r gweithgaredd a allai fod yn ddefnyddiol i eraill wrth gynllunio gweithgaredd tebyg yn y dyfodol.

Cyfraniad at swyddi

Bydd angen i chi gadw'r disgrifiad swydd, manyleb y person a'r cytundeb ond gallech hefyd feddwl a allai'r person yn y rôl greu canllawiau, llawlyfrau neu ddisgrifiadau syml am y gwaith y mae'n ei wneud a allai helpu eraill. Ydyn nhw'n gallu rhannu'r wybodaeth maen nhw'n ei ddatblygu i fel rhan o'r rôl mewn ffyrdd eraill hefyd fel hyfforddiant neu fentora, er enghraifft?

Dehongli neu waith cyfalaf ar raddfa fach

Os yw eich prosiect yn creu gwaith dehongli fel byrddau gwybodaeth neu baneli bydd angen i chi gadw ffotograffau o'r rhain yn eu lle a ffeiliau digidol o'r paneli. Meddyliwch sut y bydd y rhain yn cael eu cynnal. Pwy fydd yn eu glanhau ac yn cadw'r min mewn cyflwr da a pha mor aml y bydd angen gwneud y gwaith hwn? Os ydych yn creu meinciau, mynegbyst neu strwythurau bach eraill, tynnwch luniau o'r rhain a chadwch unrhyw gynlluniau neu ddyluniadau. Mae gwybodaeth yn ein canllawiau grant am y caniatâd y bydd angen eu ceisio a chytundebau ynghylch cynnal a chadw mân waith cyfalaf sydd angen eu dilyn am 10 mlynedd ar ôl y cyfnod ariannu. Gallech hefyd feddwl am gynnwys y gymuned wrth ddylunio, adeiladu a chynnal gwaith cyfalaf ar raddfa fach hefyd er mwyn gwella'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r cyfleoedd a roddir.

Hanes llafar

Gofynnwn i chi ddilyn canllaw'r Gymdeithas Hanes Llafar ar gyfer grwpiau cymunedol os ydych yn casglu hanes llafar [For community groups - Oral History Society \(ohs.org.uk\)](http://ohs.org.uk). Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn gwneud hyn yn foesebol a bod y wybodaeth y byddwch yn ei chofnodi mor ddefnyddiol â phosibl i'ch gymuned ac i genedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn rhoi manylion i chi am sut yr ydych yn cadw'r wybodaeth a gofnodwch yn eich cynnig grant.

Bydd angen i dîm prosiect LleCHI LleNI gadw cofnodion o'r prosiect felly, rhannwch unrhyw wybodaeth sydd gennych a allai ein helpu i wneud hynny, ac i adeiladu adnodd defnyddiol ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gweithio gydag Amgueddfa Cymru, Gwasanaeth Archifau Gwynedd a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru fel y gallai'r wybodaeth sydd gennych ein helpu i greu cofnod pwysig o dreftadaeth, diwylliant a chymunedau yn y Dirwedd Lechi, a all helpu eraill nawr ac ymhell i'r dyfodol.